Cadeirydd:
Hon. Chairman:
Geraint Jones Lewis
Rhyd-y-gof Isaf,
Pont Creuddyn,
Llanbedr Pont Steffan,
Ceredigion
(01570 470348)

Ysgrifennydd:
Hon. Secretary:
Sian Ioan,
Croesheddig Newydd,
Pentre'r Bryn,
Llandysul,
Ceredigion,
SA44 6NB
(01545 560255)

GWARTHEG HYNAFOL CYMRU
ANCIENT CATTLE OF WALES

Cylchlythyr Calan Mai 2013 *Summer Newsletter*

Sioe arloesol i GHC a Teme Valley

Torrwyd tir newydd yng Ngŵyl Wanwyn CAFC yn Llanelwedd eleni wrth i heffer/treisiad genglog ddu gael ei dangos yn yr ŵyl am y tro cyntaf. Debbie Powell fu'n gyfrifol am yr orchest a daeth Teme Valley Niomi yn drydedd mewn dosbarth o naw.

Enillydd yr adran oedd anner Galloway, hefyd o eiddo David a Deborah. Gwych iawn y Poweliaid. Da iawn chi.

Mae'r her wedi ei osod yn awr i eraill ddilyn yn ôl eu traed. Byddai'n wych gweld rhagor o wartheg GHC yn yr ŵyl yn 2014.

Show first for ACW and Teme Valley

Many congratulations to Debbie Powell of Teme Valley on her success at the RWAS Spring Festival at Builth Wells. Teme Valley Niomi, a belted Welsh heifer, was placed third in a class of nine. This historic occasion was the first ever showing of an ACW animal ar the RWAS Spring Festival.

Debbie and David Powell also took poll position with their Galloway heifer. Fantastic job Deb. We are very proud of you.

A challenge has now truly been set. It would be wonderful to see more ACW entries at the Spring Festival in 2014.

ghc.acw@btinternet.com

Hyfforddi Arddangoswyr

Gyda llwyddiant Teme Valley a bustach o eiddo Geraint Jones-Lewis eisoes wedi ymddangos yn y Ffair Aeaf, mae'r her wedi ei osod bellach i aelodau eraill ddechrau dangos eu stoc er mwyn hyrwyddo'r brîd.

Un sydd wedi dechrau ymarfer yn barod yw Robert Clifton a fu'n cynorthwyo Deborah drwy arwain Teme Valley Niomi yn ystod yr orymdaith. Ymlaen Bob!

Gŵyl Wanwyn CAFC 2013

Diolch i bawb a gynorthwyodd ar stondin GHC eleni, yn enwedig Jane a Mike Ricketts-Hine, Mike Lewis a John and Pat Forster. Cafwyd cryn ddiddordeb a denwyd ambell aelod newydd.

Seren y sioe oedd llo amddifad Sian a Gareth Ioan. Cafwyd cystadleuaeth i'w enwi. Y cynnig buddugol oedd 'Oreo' – ar ôl y fisged du a gwyn. Cafwyd dau enillydd: Cerys a Holly Anthony o Aberhonddu, a Ted Lloyd o Lanllieni. Mae'n nhw'n ennill nwyddau GHC. Da iawn nhw!

Exhibitors in training

With Teme Valley's success at the Spring Festival and with Geraint Jones Lewis' steer showing at the RWAS Winter Fair, it would be great to see other members showing their cattle in order to promote the breed.

One member who is already in training is Robert Clifton who assisted Deborah in leading Teme Valley Niomi in the grand parade. Onwards and upwards Bob!

RWAS Spring Festival 2013

Many thanks to all who assisted at the ACW stand this year. In particular Jane and Mike Ricketts-Hine, Mike Lewis and John and Pat Forster. Much interest was raised and some new members joined.

The star of the show was Sian and Gareth Ioan's belted orphan calf. A competition was arranged to give the calf a suitable name. The winning suggestion was 'Oreo' – after the similarly coloured black and white biscuit.

Two entries shared the prize of ACW merchandise: Cerys and Holly Anthony from Brecon, and Ted Lloyd from Leominster.

Cyfarfod Cyffredinol Arbennig

Daeth criw da ynghyd ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig ym Mhlas Dolguog ym Machynlleth ar 11eg Mai.

Cafwyd cyflwyniad gan Mike Lewis ar ddatblygiad y wefan newydd. Roedd croeso mawr i'r wefan ac fe anogodd Mike bob aelod i anfon lluniau ato, nodi newyddion a rhannu gwybodaeth am stoc i'w werthu. Gofynnodd hefyd i fridwyr sicrhau eu bod wedi eu nodi yn gywir ar y map bridwyr.

Gallwch fynd at y wefan drwy:

www.ancientcattleofwales.org

Gallwch ebostio Mike ar:

mike.lewis@menterabusnes.co.uk

Cydnabod GHC

Am y tro cyntaf erioed mae GHC wedi ei gydnabod gan DEFRA ar y rhestr ganolog o fridiau Prydeinig.

Mae gan DEFRA restr swyddogol dan y teitl *UK National Inventory of Breeds* a weinyddir gan gynllun *FAnGR (Farm Animal Genetic Resource).* Mae'r rhestr yn nodi GHC fel brîd cynhenid (i'w gadarnhau) a Brîd dan Ddatblygiad. Adeiladu ar y dynodiadau statws yma fydd yr her nesaf i GHC.

Cynnig arbennig

Yn dilyn cyflwyniad manwl gan Gareth Ioan ar drafodaethau diweddar a fu rhyngom â swyddogion DEFRA a Llywodraeth Cymru cytunwyd yn unfrydol â'r Cynnig Arbennig a roddwyd gerbron.

Y nod yw ceisio am statws Brydeinig *NBAR* – sef gwartheg cynhenid sydd dan fygythiad. Bydd hyn yn agor y drws i ni mewn sawl ffordd, gan gynnwys cynlluniau grant Ewropeaidd fel Glastir.

I'r perwyl hynny, felly, byddwn yn trosglwyddo y gofrestr bapur gyfredol i ffurf digidol (e.e. MS Excel) yn barod i'w drosglwyddo I feddalwedd achresi

Extraordinary General Meeting

The EGM at Plas Dolguog, Machynlleth on 11th May was well attended.

Mike Lewis gave the members a tour of the new website which was warmly received. Mike encouraged all members to send pictures for website use, share news items and cattle for sale. He also requested that breeders assisted him in placing their locations and contact details correctly on the new interactive breeders map.

The website address is:

www.ancientcattleofwales.org

Mike can be reached via:

mike.lewis@menterabusnes.co.uk

ACW recognised by DEFRA project

ACW has gained another first in being listed on DEFRA's main register of British cattle breeds.

DEFRA maintain an official register of agricultural breeds entitled *UK National Inventory of Breeds* administrated by the FAnGR project (Farm Animal Genetic Resource). ACW is listed as a native breed (to be confirmed) and as a Breed in Development. The challenge now is to build on this initial registration status.

Special resolution

Following a detailed presentation by Gareth Ioan of recent discussions with DEFRA and Welsh Government the Special Resolution was carried unanimously.

The aim now is to gain UK NBAR status (Native Breed at Risk). This will open many doors, including access to European funding schemes such as Glastir and HLS.

To that end we will transfer the current paper-based herd book onto a digital format (e.g. MS Excel) in preparedness for further transfer to a standard herd book software. Jane

safonol. Mae Jane Ricketts-Hine eisoes wedi gwirfoddoli i wneud hynny. Yna, byddwn yn twtio'r gofrestr, gorau medrwn, o wartheg sy'n cael eu graddio, gan gynnwys (lle'n bosibl) cofrestru hanesyddol ar sail data BCMS.

Y cam nesaf fydd sefydlu dwy gofrestr gyfochrog yn unol â'r rheoliadau ar gyfer (a) gwartheg pedigrî, a (b) gwartheg sy'n cael eu graddio, er mwyn amlygu'r statws pedigrî..

Mae Alun Davies, Gweinidog Materion Gwledig Cymru wedi penodi swyddog i gydweithio â GHC er mwyn sicrhau ceisio statws NBAR. Byddwn yn trafod ein polisi ynghylch teirw cofrestredig gyda'r swyddog hwnnw.

At hynny, byddwn yn ymchwilio ymhellach i'r posibilrwydd o sicrhau corfforaeth gyfreithiol I GHC, e.e. cwmni cyfyngedig trwy warrant, fel bod modd I'r gymdeithas dderbyn cydnabyddiaeth Ewropeaidd.

Ymlaen mae Canaan!

Cofrestru anifeiliaid

Yng nghanol yr holl drafodaethau diweddar mae wedi dod yn amlwg pa mor hanfodol yw sicrhau cofrestriadau, a sicrhau cysondeb mewn cofrestriadau dros amser i sicrhau medru olrhain achres yn gyflawn.

Y cais yn syml yw **COFRESTRWCH**, os gwelwch yn dda.

Does dim ots os nad yw'r lliwiau yn berffaith – hanner cengl, brychni ac ati. Sicrhau'r olyniaeth yn yr achres sy'n hanfodol. At hynny, penderfynwyd ar 11 Mai i gofrestru anifeiliaid benyw duon hyd at yr ail genhedlaeth i hwyluso sicrhau olyniaeth gyflawn.

Ricketts Hine has already volunteered herself for the task. We will then clean up the herd book as best we can of graded up cattle, including (where possible) retrospectively registering cattle via BCMS data.

The next step will be to establish parallel herd books if need be for (a) pedigree cattle, and (b) grading up cattle, in order to clarify pedigree status.

Alun Davies, the Welsh Rural Affairs Minister, has designated a civil servant to assist us in gaining NBAR status and we will be discussing our bull policy with the concerned officer.

Furthermore, we will conduct further research into the possibility of adopting legal corporation, e.g. as a company limited by guarantee, in order that ACW can gain EU recognition as a breed society. Find out more at the AGM

There's lots to be getting on with!

Cattle registrations

Amidst the recent discussions it has become evident that continuity of registrations is absolutely essential to any breed society's success. Registrations are vital in order to maintain a robust pedigree record.

The plea, therefore, is please, please, please **REGISTER** your cattle.

The colours do not have to be perfect – e.g. incomplete belt or speckled shoulders are fine. Maintaining an unbroken pedigree is far, far more important. Moreover on 11th May it was decided to register black female progeny in the second generation in order to facilitate unbroken pedigrees.

CCB:
21 Medi 2013
Ceredigion

AGM:
21 Sept 2013
Ceredigion

ghc.acw@btinternet.com